

Bwrdd Parôl Cymru a Lloegr

Cynllun Iaith Gymraeg

Paratowyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD



Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Datblygu a gweithredu polisi	4
3. Recriwtio	5
4. Darparu gwasanaethau i'r cyhoedd	6
5. Gweithredu, monitro a chyhoeddi'r cynllun	9
Atodiad A - System sgorio Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer ffurflenni	11
Atodiad B - System sgorio Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer cyhoeddiadau	13
Atodiad C - Cynllun gweithredu'r Bwrdd Parôl	16

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Cynllun Iaith Gymraeg (y Cynllun) y Bwrdd Parôl (y Bwrdd) wedi'i baratoi'n unol â'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd dan Adran 9 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.
- 1.2 Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gyflawni busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, i'r graddau y bo hynny'n briodol yn yr amgylchiadau ac y bo'n rhesymol yn ymarferol. Mae'r Cynllun yn dynodi sut bydd y Bwrdd yn gweithredu'r egwyddor honno yn y gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru y mae'n gyfrifol amdanynt.
- 1.3 Mabwysiadwyd y Cynllun gan Fwrdd Rheoli'r Bwrdd Parôl ac fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar **04/05/2011**.
- 1.4 Dylech ddarllen unrhyw gyfeiriad yn y Cynllun at y cyhoedd i gynnwys carcharorion, dioddefwyr, aelodau'r proffesiwn cyfreithiol ac unrhyw grŵp diddordeb penodol yng Nghymru yr ydym yn darparu gwasanaeth ar eu cyfer.
- 1.5 Sefydlwyd y Bwrdd Parôl ar gyfer Cymru a Lloegr yn 1967 dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1967. Daeth yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol Gweithredol ar 1 Gorffennaf 1996 dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994.
- 1.6 Mae'r Bwrdd Parôl yn gweithio gyda'i bartneriaid yn y system cyfiawnder troseddol i amddiffyn y cyhoedd drwy asesu risg carcharorion er mwyn penderfynu a ellir eu rhyddhau'n ddiogel i'r gymuned.
- 1.7 Nod y Bwrdd Parôl yw:
 - Cynnal asesiadau risg sy'n drwyadl, yn deg ac yn amserol gyda'r brif nod o amddiffyn y cyhoedd ac sy'n cyfrannu at adsefydlu carcharorion lle bo'n briodol.
 - Dangos ffordd o lywodraethu corfforaethol effeithiol ac atebol drwy gynnal rheolaeth gref yn fewnol, gan bennu amcanion clir a rheoli risg corfforaethol a chyflwyno gwerth gorau drwy fanteisio i'r eithaf ar ddefnyddio adnoddau.
 - Hyrwyddo'r annibyniaeth a'r hyder yng ngwaith y Bwrdd, gan reoli newid yn effeithiol.
- 1.8 Mae'r Bwrdd Parôl yn delio â llawer o bobl agored i niwed. Mae'r Bwrdd yn cydnabod y gall rhai pobl fynegi eu safbwyntiau a'u hanghenion yn well yn yr iaith Gymraeg, a bod eu galluogi i ddefnyddio'r iaith o'u dewis yn arfer da yn hytrach na chonsesiwn. Wrth roi mesurau'r Cynllun ar waith, bydd y Bwrdd yn pwysleisio parch at hawliau a dymuniadau teg defnyddwyr yr iaith Gymraeg.

2. Datblygu a gweithredu polisi

- 2.1 Fel Corff Cyhoeddus Anadrannol, rydym yn gyfrifol am ddatblygu polisiâu a chynlluniau newydd, am rai swyddogaethau cefnogi a, dan rai amgylchiadau, am ddynodi natur gwasanaethau i'w darparu gan eraill. Byddwn yn sicrhau bod staff ac ymgynghorwyr sy'n ymwneud â ffurfio polisi yn ystyried y Cynllun a'n cyfrifoldebau dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg. Wrth i ni ystyried a datblygu polisiâu newydd, neu adolygu polisiâu cyfredol yng nghwrs arferol busnes polisi, byddwn yn:
- Asesu canlyniadau ieithyddol polisiâu sy'n effeithio ar wasanaethau a ddarperir ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru.
 - Hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg lle bynnag y bo'n briodol ac ystyried presenoldeb cyfyngedig y Bwrdd Parôl yng Nghymru.
 - Gweithredu egwyddor cydraddoldeb ar bob cyfle posib, cyn belled ag y bo'n briodol i'r amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.
- 2.2 Byddwn yn sicrhau y bydd yr un camau'n cael eu cymryd o ran gweithredu. Byddwn yn asesu canlyniadau ieithyddol gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl Cymru, yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl ac yn ystyried presenoldeb cyfyngedig y Bwrdd Parôl yng Nghymru a gweithredu egwyddor cydraddoldeb ar bob cyfle. Pan fydd polisiâu i'w gweithredu gan y Bwrdd yn uniongyrchol, neu drwy drydydd partion, byddwn yn sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n cael eu darparu yng Nghymru mewn ffordd sy'n trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gyfartal.
- 2.3 Byddwn yn ymgynghori ag aelodau'r Bwrdd a Chyfarwyddwr Rheoli Troseddwr Cymru i benderfynu pa arweiniad neu hyfforddiant y gellid bod eu hangen yng nghyswllt defnyddio'r iaith Gymraeg ar gyfer aelodau sy'n gwrando achosion yng Nghymru.

3. Recriwtio

Penodi staff

- 3.1 Gan fod ein swyddfeydd i gyd wedi'u lleoli yn Llundain, yr ydym yn recriwtio staff yn genedlaethol ac yn hysbysebu yn yr iaith Saesneg. Nid ydym yn disgwyl newid yr arfer hwn. Fodd bynnag, os byddwn yn recriwtio yng Nghymru yn benodol neu'n hysbysebu mewn cyhoeddiadau a gaiff eu dosbarthu yng Nghymru yn bennaf, byddwn yn hysbysebu'n ddwyieithog.

Penodiadau cyhoeddus

- 3.2 Y Weinyddiaeth Cyfiawnder sy'n gyfrifol am benodi aelodau'r Bwrdd Parôl ar ôl cael argymhellion gan y Bwrdd. Mae'r drefn ar gyfer recriwtio'r aelodau hyn yn digwydd yn genedlaethol ar hyn o bryd drwy hysbysebion yn yr iaith Saesneg.
- 3.3 Mae'r Bwrdd Parôl yn cydnabod y gall darparu dewis iaith i garcharorion sy'n siarad Cymraeg fod yn bwysig o ran sicrhau tegwch yn y broses o asesu risg carcharorion. Bydd y Bwrdd yn cynnal asesiad o'n gallu presennol i gynnal gwrandawiadau yn Gymraeg ac i ba raddau y byddai'r gallu i gynnal achosion drwy gyfrwng y Gymraeg yn nodwedd ddymunol neu hollbwysig i rai ymgeiswyr. Byddwn yn ymgynghori â'r Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol o ran poblogaeth y bobl sy'n siarad Cymraeg mewn carchardai er mwyn asesu lle byddai'r angen mwyaf am allu o'r fath. Yna byddwn yn gwneud argymhellion i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ynghylch hysbysebu dwyieithog yn y wasg yng Nghymru a recriwtio ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg.
- 3.4 Bydd y drefn benodol a gaiff ei mabwysiadu ar gyfer penodi yn dibynnu ar natur y swydd. Bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn ystyried, yn wyneb natur a lleoliad unrhyw swydd benodol, a eir ati'n benodol i chwilio am ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg.

4. Darparu gwasanaethau i'r cyhoedd

Cyffredinol

- 4.1 Pan fydd y Bwrdd yn darparu gwasanaethau yn Gymraeg, bydd yn darparu'r un safon o wasanaeth ag a ddarpara wrth ddarparu'r gwasanaeth hwnnw yn Saesneg. Yn benodol:
- Bydd ein hamserau targed ar gyfer ymateb i ohebiaeth yr un fath, boed yr ohebiaeth honno'n cael ei chynnal yn Gymraeg neu yn Saesneg.
 - Pan fyddwn yn cynhyrchu dogfennau yn Gymraeg ac yn Saesneg, byddwn yn darparu'r deunydd yn y ddwy iaith, at yr un safon ac o fewn yr un amserlen.

Gohebiaeth

- 4.2 Byddwn yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth a anfonir atom yn Gymraeg o fewn yr un amserlen â gohebiaeth arall. Byddwn yn defnyddio'r Uned Iaith Gymraeg yng Ngwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi ar gyfer gwasanaethau cyfieithu, a byddwn yn rhoi arweiniad i staff ynglŷn â defnyddio'r gwasanaeth cyfieithu cyn i'r Cynllun ddod i rym.

Galwadau ffôn

- 4.3 Mae swyddfeydd y Bwrdd yng nghanol Llundain, a phrin iawn yw'r cyswllt uniongyrchol a gawn â'r cyhoedd yn gyffredinol. O'r herwydd, nid yw'n ymarferol i ni gynnig gwasanaeth ffôn Cymraeg. I'r rheini sy'n ein ffonio ni ac sy'n dymuno siarad Cymraeg, rhown ddewis iddynt naill ai i ysgrifennu atom yn Gymraeg neu barhau â'r sgwrs yn Saesneg.

Digwyddiadau

- 4.4 Pan fyddwn yn cynnal digwyddiadau yng Nghymru, hysbysir y rhain yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac fe'i gwnawn hi'n glir y bydd croeso i gyfranogwyr gyfrannu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Er mwyn hwyluso'r trefniadau, gwnawn y canlynol:
- Wrth hysbysebu'r digwyddiad, fe'i gwnawn hi'n glir y byddwn yn parchu hawliau'r bobl sy'n ei fynychu i siarad Cymraeg neu Saesneg;
 - Gwahoddwn unrhyw un sy'n bwriadu bod yn bresennol i ddweud o leiaf bythefnos ymlaen llaw a ydynt yn bwriadu siarad Cymraeg ynteu Saesneg.
 - Paratoi arweiniad i staff i'w helpu i benderfynu a oes angen trefnu cyfleusterau cyfieithu ai peidio, yng nghyswllt y pwnc i'w drafod, lleoliad y cyfarfod a phwy sy'n debygol o fod yn bresennol, yn ogystal ag a gafwyd unrhyw awgrym blaenorol y bydd cyfranogwyr yn defnyddio'r ddwy iaith.

Hunaniaeth gorfforaethol

- 4.5 Byddwn yn datblygu logo corfforaethol cwbl ddwyieithog ar gyfer y Bwrdd Parôl y gellir ei ddefnyddio ar ohebiaeth, dogfennau a chyhoeddiadau a gaiff eu hysgrifennu yn Gymraeg ac ar gyfer digwyddiadau a gynhelir yng Nghymru. Pan fydd y Bwrdd yn anfon gohebiaeth at bobl neu fudiadau yng Nghymru, byddwn yn defnyddio ein hunaniaeth gorfforaethol beth bynnag fydd iaith yr ohebiaeth.

Cyhoeddiadau a ffurflenni

- 4.6 Mae ein cyhoeddiadau'n cynnwys adroddiadau, papurau ymgynghori a thafleuni ynglŷn â'n cyfrifoldebau ledled Cymru a Lloegr. Bydd cyhoeddiadau a ffurflenni ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru drwy wefan y Bwrdd Parôl www.paroleboard.gov.uk.
- 4.7 Bydd y Bwrdd yn defnyddio system sgorio Bwrdd yr Iaith Gymraeg i asesu cyhoeddiadau a ffurflenni i benderfynu a ryddheir y rhain yn Gymraeg neu mewn fformat dwyieithog. Pan fydd y system sgorio'n cyfiawnhau cyhoeddiad Cymraeg, byddwn yn ymrwymo i ddarparu fersiwn PDF electronig ohono, i fod ar gael i'w lwytho i lawr. Nodir y system sgorio yn Atodiad A ac Atodiad B i'r Cynllun hwn
- 4.8 Pan fydd fersiwn Gymraeg o ddogfen neu grynodedb yn cael ei chyhoeddi, gwnawn hynny'r un pryd â'r fersiwn Saesneg yn y rhan fwyaf o achosion.
- 4.9 Bydd y Bwrdd yn cynhyrchu ffurflenni i'w defnyddio yng Nghymru yn Gymraeg neu mewn fformat dwyieithog, ar sail system sgorio Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer ffurflenni. Bydd cyfieithu ar gais yn parhau'n opsiwn. Pan fydd y system sgorio'n cyfiawnhau ffurflen Gymraeg, byddwn yn ymrwymo i ddarparu fersiwn PDF electronig ohoni, i fod ar gael i'w lwytho i lawr.

Gwefan

- 4.10 Mae'r Bwrdd Parôl, fel adrannau llywodraeth eraill, yn cyfyngu ar ei wefan ac yn symud deunydd ar gyfer y cyhoedd i DirectGov, sy'n gwbl ddwyieithog. Mae hefyd yn symud ei holl gynnwys corfforaethol i wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. O ran y cynlluniau presennol, bydd gwefan y Bwrdd Parôl yn cau ym mis Mawrth 2011.
- 4.11 Nes y bydd yn cau, bydd gwefan y Bwrdd Parôl yn cynnwys eitemau yn Gymraeg pan fydd yn rhaid i'r eitemau hynny fod yn Gymraeg o ganlyniad i adrannau eraill y Cynllun.
- 4.12 Nes y bydd yn cau, wrth ailddatblygu ein gwefan bresennol, byddwn yn ystyried *Canllawiau a Safonau Dwyieithog* Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac unrhyw ganllawiau eraill a gyhoeddir gan y Bwrdd yng nghyswllt datblygu gwefannau.

- 4.13 Nes y bydd yn cau, pryd bynnag y byddwn yn postio cyhoeddiadau yn Saesneg ar ein gwefannau, bydd y fersiynau Cymraeg yn cael eu postio cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. Bydd y Bwrdd Parôl yn creu ac yn cynnal tudalen Gymraeg ar ei wefan gyda dolenni i gyhoeddiadau yn Gymraeg yn ôl y gofyn gan adrannau eraill y Cynllun.

Gwasanaethau a ddarperir ar ran y Bwrdd gan bartïon eraill

- 4.14 Byddwn yn sicrhau bod trefniadau a chontractau gyda thrydydd partïon sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn gyson â thelerau'r Cynllun a'u bod yn cael eu gweithredu'n unol â hynny.

Bydd manylebau ar gyfer gwasanaethau'n cynnwys mesurau perthnasol yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg; yn fwyaf penodol, y dylai gwybodaeth brintiedig megis ffurflenni, taflenni a phhecynnau gwybodaeth fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, y gellir defnyddio'r naill iaith neu'r llall mewn unrhyw Ddigwyddiad a, chyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, mewn unrhyw fusnes arall gyda'r sefydliad sy'n darparu'r gwasanaeth.

Datganiadau i'r wasg

- 4.16 Bydd datganiadau i'r wasg ac i'r cyfryngau darlledu Cymraeg yng Nghymru'n cael eu cyhoeddi yn Gymraeg, pan fydd y dyddiadau cau yn caniatáu hynny. Bydd y datganiadau i'r wasg hefyd ar gael ar wefan y Bwrdd Parôl (www.paroleboard.gov.uk/news.htm).

Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a hysbysebu

- 4.17 Bydd yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus, arddangos a hysbysebu a ddefnyddiwn yng Nghymru (er mwyn targedu'r cyhoedd) yn cael ei gynhyrchu'n gwbl ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddwy fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd. Bydd y ddwy fersiwn ar gael yr un pryd a byddant yr un mor hawdd cael gafael arnynt â'i gilydd.

Hysbysiadau swyddogol a hysbysiadau cyhoeddus

- 4.18 Bydd pob hysbysiad swyddogol a hysbysiad cyhoeddus a gyhoeddir neu a osodir mewn llefydd cyhoeddus yng Nghymru'n cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg, y naill a'r llall.

5. Gweithredu, monitro a chyhoeddi'r cynllun

- 5.1 Mae holl ddarpariaethau'r Cynllun ar gael o'r dyddiad a ddaw i rym, heblaw'r rheini a amlinellir yng nghynllun gweithredu'r Bwrdd Parôl (Atodiad C).
- 5.2 Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol yn cydlynu gweithrediad y Cynllun ac yn cysylltu â'r meysydd busnes perthnasol i sicrhau eu bod yn anrhydeddu gofynion y cynllun.
- 5.3 Bydd trefniadau monitro yn rhoi sylw penodol i:
- **Cynllunio ymlaen llaw a chaffael:** bob blwyddyn, byddwn yn atgoffa llunwyr polisi a rheolwyr gweithredol i ystyried cymhwyso'r Cynllun i'r meysydd polisi a gweithdrefnol hynny y maent yn gyfrifol amdanynt wrth lunio eu cynlluniau busnes blynyddol newydd; a byddwn yn gofyn iddynt adrodd bob blwyddyn ar waith yn deillio o ofynion y Cynllun:
 - **Ein hwyneb cyhoeddus:** byddwn yn monitro, yn cofnodi ac yn cyflwyno adroddiad ynghylch cyflwyno'r cyhoeddiadau a'r ffurflenni dwyieithog hynny a gynhyrchir a/neu a ddsberthir gennym.
 - **Cwynion:** delir â chwynion ynghylch ein Gwasanaeth Iaith Gymraeg yn unol â'n trefn gwynion arferol.
- 5.4 Fel arfer, bydd y Cynllun mewn grym o ddyddiad ei weithredu. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod pob staff sy'n ymwneud â llunio polisi a gwasanaethau cefnogi yn ymwybodol o ofynion y Cynllun ac yn eu hystyried wrth gyflawni eu gwaith. Byddwn yn gwneud hyn drwy sicrhau bod copi o'r Cynllun ar gael i'r holl staff.
- 5.5 Ym mis Hydref bob blwyddyn bydd y Bwrdd Parôl yn paratoi adroddiad monitro ar gyfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg gan werthuso ei berfformiad wrth roi'r Cynllun ar waith. Bydd yr adroddiad yn cynnwys:
- (i) Cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu.
 - (ii) Sut y caiff yr iaith Gymraeg ei phrif-ffrydio yng ngwaith y Bwrdd Parôl.
 - (iii) Unrhyw gwynion a dderbynnir am y Bwrdd Parôl yng nghyswllt yr iaith Gymraeg.
- Cyflwynir yr adroddiad i'r Bwrdd Rheoli. Ar ôl tri adroddiad, byddwn yn adolygu gweithrediad y Cynllun ac yn trafod gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cyhoeddi gwybodaeth

- 5.6 Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth yn cymharu ein perfformiad â'r safonau a'r targedau a nodir yn y Cynllun ar ein gwefan. Os nad ydym yn cyflawni'r safonau a'r targedau a gyhoeddwyd, byddwn yn esbonio'r camau y bwriadwn eu cymryd i gywiro'r sefyllfa.

Cyhoeddusrwydd

5.7 Byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun, ar ôl derbyn cytundeb a chymeradwyaeth y Bwrdd:

- Drwy gyhoeddi datganiad i'r wasg.
- Drwy sicrhau bod y Cynllun ar gael fel dogfen ddwyieithog am ddim ar ein gwefan www.paroleboard.gov.uk a gan y Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol yn:
Y Bwrdd Parôl
Grenadier House
99-105 Horseferry Road
Llundain
SW1P 2DX
- Bydd y Cynllun yn cael cyhoeddusrwydd helaeth yn fewnol.

Y Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol hefyd fydd y pwynt cyswllt ar gyfer unrhyw ymholiad neu gŵyn gan aelodau'r cyhoedd ynglŷn â'r Cynllun.

Byddwn yn monitro ein perfformiad o ran cyflawni'r ymrwymïadau a wnaed yn y Cynllun a chofnodi'r galw am wasanaethau Cymraeg, gan gynnwys unrhyw alwadau am wasanaethau sy'n mynd y tu hwnt i'r ymrwymïadau a wnaed gennym ni.

Atodiad A: System sgorio Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer ffurflenni

Pwrpas y ddogfen hon yw cyflwyno dull y gellir ei fabwysiadu gan gyrff cyhoeddus i'w helpu i benderfynu a ddylid paratoi fersiwn ddwyieithog neu fersiwn Gymraeg o'r ffurflenni a gyhoeddir ganddynt ai peidio.

Gall unrhyw gorff cyhoeddus ddewis mabwysiadu neu beidio â mabwysiadu'r dull hwn – ac addasu'r ddogfen a ganlyn er mwyn adlewyrchu natur eu gwaith.

Ni fwriedir i'r system sgorio fod yn gwbl ragnodol nac yn anhyblyg. I'r gwrthwyneb, dylid ei defnyddio i helpu gyda'r dasg o benderfynu ar y ffordd ymlaen ym mhob achos. Er hynny, os ydych chi'n penderfynu peidio â gweithredu'n unol â'r system sgorio, dylech sicrhau eich bod yn gallu cyfiawnhau'r penderfyniad hwnnw.

Dyma'r system sgorio:

1. Nifer y copïau i'w hargraffu mewn blwyddyn:
 - 1 – 500: sgôr = 1
 - 500 – 5,000: sgôr = 2
 - dros 5,000: sgôr = 4
2. Y gynulleidfa darged:
 - y cyhoedd: sgôr = 15
 - sector penodol o'r cyhoedd sgôr = 10
 - unigolion yn cynrychioli meysydd penodol sgôr = 0
3. A fydd y ffurflen yn ymwneud â maes pwnc neu ran o Gymru o ddiddordeb penodol yng nghyswllt y Gymraeg? Neu a fydd wedi'i anelu'n llwyr at ardaloedd sydd â chanran uchel o siaradwyr Cymraeg?
 - bydd: sgôr = 10
 - na fydd: sgôr = 0
4. Am ba hyd y defnyddir y ffurflen?
 - 0 – 6 mis: sgôr = 1
 - 6 mis - 2 flynedd: sgôr = 2
 - dros 2 flynedd: sgôr = 4

5. Nifer y geiriau yn y ffurflen:

- 0 – 500: sgôr = 4
- 500 – 1000: sgôr = 3
- 1000 – 5000: sgôr = 2
- dros 5000: sgôr = 1

6. Nifer y tudalennau yn y ffurflen:

- 1 – 5: sgôr = 4
- 5 – 10: sgôr = 3
- 10 – 20: sgôr = 2
- dros 20: sgôr = 1

Dylid adio sgôr pob cwestiwn – a'i gymharu â'r canlynol:

Penderfyniad ynghylch fersiwn **bapur** o'r cyhoeddiad:

- 0 – 14 : does dim angen paratoi fersiwn Gymraeg
- 15 – 18 mae'r sgôr hwn yn awgrymu y dylid paratoi fersiwn Gymraeg, (ond os ddim, dylid paratoi crynodeb Cymraeg yn lle hynny)
- dros 18: mae angen paratoi fersiwn Gymraeg

Penderfyniad ynghylch fersiwn **electronig** o'r cyhoeddiad (i'w gynnwys ar wefan y corff ayb). **Anwybyddwch** gwestiynau 1 – 6 wrth gyfrifo'r sgôr hwn:

- 0 – 11 : does dim angen paratoi fersiwn Gymraeg
- 12 – 14 mae'r sgôr hwn yn awgrymu y dylid paratoi fersiwn Gymraeg, (ond os ddim, dylid paratoi crynodeb Cymraeg yn lle hynny)
- dros 14: mae angen paratoi fersiwn Gymraeg.

Atodiad B: System sgorio Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer cyhoeddiadau

Pwrpas y ddogfen hon yw cyflwyno dull y gellir ei fabwysiadu gan gyrff cyhoeddus i'w helpu i benderfynu cyhoeddi neu beidio â chyhoeddi deunydd yn y Gymraeg, boed hynny ar ffurf dogfennau dwyieithog neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Gall cyrff cyhoeddus addasu'r ddogfen isod i adlewyrchu natur eu gwaith.

Ni fwriedir i'r system sgorio fod yn gwbl ragnodol nac yn anhyblyg. I'r gwrthwyneb, dylid ei defnyddio i helpu gyda'r dasg o benderfynu ar y ffordd ymlaen ym mhob achos. Er hynny, os ydych chi'n penderfynu peidio â gweithredu'n unol â'r system sgorio, dylech sicrhau eich bod yn gallu cyfiawnhau'r penderfyniad hwnnw.

Dyma'r system sgorio:

1. Nifer y copïau i'w hargraffu bob blwyddyn ar gyfer eu defnyddio yng Nghymru:
 - 1 – 500: sgôr = 1
 - 500 – 5,000: sgôr = 2
 - dros 5,000: sgôr = 4
2. Y gynulleidfa darged neu statws:
 - y cyhoedd (neu statws uchel): sgôr = 15
 - sector penodol o'r cyhoedd (neu statws canolig): sgôr = 10
 - unigolion yn cynrychioli meysydd penodol (neu statws isel): sgôr = 0

(Er enghraifft, a fydd yn ddogfen allweddol, ac yn ganolog i'ch perthynas â'ch rhanddeiliaid yng Nghymru? Neu a fydd yn denu sylw helaeth gan y wasg yng Nghymru?)

Dylid dyfarnu'r pwyntiau **uchaf** posibl. Er enghraifft, dylai dogfen sydd wedi'i hanelu at *unigolion sy'n cynhyrchu meysydd penodol*, ond gyda *statws uchel*, gael 15 pwynt, nid 0 pwynt.)

3. A fydd y cyhoeddiad yn berthnasol i faes pwnc neu ran o Gymru o ddiddordeb penodol yng nghyswllt y Gymraeg? Neu a fydd wedi'i anelu'n llwyr at ardaloedd sydd â chanran uchel, neu nifer fawr, o siaradwyr Cymraeg?
 - bydd: sgôr = 10
 - na fydd: sgôr = 0

4. Am ba hyd y defnyddir y cyhoeddiad? **Fodd bynnag, os yw'r cyhoeddiad yn ddogfen ymgynghori**, dylid anwybyddu'r cwestiwn hwn ac ateb cwestiwn 7 yn ei le (oherwydd natur a statws arbennig y dogfennau hynny):
- 0 – 6 mis: sgôr = 1
 - 6 mis - 2 flynedd: sgôr = 2
 - dros 2 flynedd: sgôr = 4
5. Nifer y geiriau yn y cyhoeddiad:
- 0 – 1000: sgôr = 4
 - 1000 – 5000: sgôr = 2
 - dros 5000: sgôr = 1
6. Amcangyfrif gorau o nifer y tudalennau mewn *fersiwn un iaith* o'r cyhoeddiad:
- 1 – 10: sgôr = 4
 - 10 – 20: sgôr = 2
 - dros 20: sgôr = 1
7. (Cwestiwn ar gyfer **dogfennau ymgynghori'n unig**). Delio â phwnc sy'n:
- Arbenigol / technegol iawn: sgôr = 1
 - Eithaf dyrys, ond o ddiddordeb i lawer: sgôr = 2
 - Hawdd ei ddeall / o ddiddordeb cyffredinol: sgôr = 4

Dylid adio sgôr pob cwestiwn – a'i gymharu â'r canlynol:

Penderfyniad ynghylch fersiwn **bapur** o'r cyhoeddiad:

- 0 – 14 : does dim angen paratoi fersiwn Gymraeg
- 15 – 18 mae'r sgôr hwn yn awgrymu y dylid paratoi fersiwn Gymraeg, (ond os ddim, dylid paratoi crynodeb Cymraeg yn lle hynny)
- dros 18: mae angen paratoi fersiwn Gymraeg

Penderfyniad ynghylch fersiwn **electronig** o'r cyhoeddiad (i'w chynnwys ar wefan y corff ayb). **Anwybyddwch** gwestiynau 1 – 6 wrth gyfrifo'r sgôr hwn:

- 0 – 11 : does dim angen paratoi fersiwn Gymraeg

- 12 – 14 mae'r sgôr hwn yn awgrymu y dylid paratoi fersiwn Gymraeg, (ond os ddim, dylid paratoi crynodeb Cymraeg yn lle hynny)
- dros 14: mae angen paratoi fersiwn Gymraeg.

Penderfyniad ynghylch argraffu dogfen **ddwyieithog**, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn argymhell y dylid cychwyn â rhagdybiaeth o blaid dogfennau dwyieithog, yn hytrach na fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mae darparu deunydd dwyieithog yn haws ei weinyddu (o ran rheoli stoc a dosbarthu) na darparu dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Perthyn iddo hefyd y fantais o fodloni anghenion teuluoedd cymysg eu hiaith, cynulleidfaoedd cymysg eraill a dysgwyr. Mae hefyd yn sicrhau bod dwy fersiwn pob dogfen yr un mor hawdd cael gafael arnynt ym mhob lleoliad - gan osgoi'r angen i siaradwyr Cymraeg ddewis rhwng gorfod defnyddio fersiwn Saesneg, neu ofyn am y fersiwn Gymraeg a wynebu oedi yn sgil hynny.

Mae hyn hefyd yn wir pan fydd dogfen yn cael ei chyhoeddi gan sefydliad sydd wedi'i leoli y tu allan i Gymru, ar gyfer ei ddsbarthu yng Nghymru a Lloegr. Unwaith yn rhagor, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn argymhell y dylid cyhoeddi fersiwn ddwyieithog i'w defnyddio yng Nghymru (yn hytrach nag argraffu cyflenwad ar wahân o'r ddogfen yn Gymraeg).

Fodd bynnag, gellid penderfynu cyhoeddi dogfen fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, os yw cost ac ymarferoldeb yn golygu ei bod hi'n amhosib argraffu fersiynau ar wahân. Gallai hyn adlewyrchu nifer y tudalennau yn y ddogfen (pe bai paratoi fersiwn ddwyieithog yn ei wneud yn rhy swmpus ac anodd ei thrin).

Gyda dogfennau a gyhoeddir fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, sy'n cael eu dosbarthu 'yn ôl y galw' (fel ymateb i ymgyrch hysbysebu, er enghraifft) a lle rhagwelir defnydd bychan o'r ddogfen, gall fod yn bosib cyfiawnhau cyhoeddi'r fersiwn Gymraeg ar wefan sefydliad yn unig. Mewn achosion o'r fath, dylai'r sefydliad fod yn barod i drefnu bod copi caled o'r ddogfen yn cael ei argraffu pe bai aelod o'r cyhoedd yn gofyn am hynny. Gellir gwneud hyn yn fewnol, neu ei drefnu drwy argraffwyr proffesiynol sy'n arbenigo mewn argraffu nifer fechan o gopiau.

Nid yw'r cyngor hwn ynghylch cyhoeddi dogfen yn ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, yn berthnasol i ddogfennau a gyhoeddir ar wefan sefydliad. Yn ôl ei union natur, bydd dogfen Gymraeg electronig yr un mor hawdd ei chyrraedd â'r fersiwn Saesneg gyfatebol, boed hi wedi'i chyhoeddi fel dogfen PDF ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Heblaw'r uchod, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi cyhoeddi *Canllaw i Ddylunio Dwyieithog*, sydd i'w gael ar eu gwefan.

Atodiad C: Cynllun gweithredu'r Bwrdd Parôl

Adran	Camau Gweithredu	Meini prawf llwyddiant	Yn gyfrifol	Dyddiad targed
Datblygu a gweithredu polisi	Sicrhau bod staff ac ymgynghorwyr sy'n ymwneud â ffurfio polisi yn gwybod am ein cyfrifoldebau dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg.	Sicrhau bod polisiau, ymgyrchoedd a gwasanaethau yn gyson ag ymrwymadau a wnaethpwyd yn y Cynllun.	Pennaeth Cyfathrebu	Ionawr 2011
	Sicrhau bod staff ac ymgynghorwyr sy'n darparu gwasanaethau i bobl yng Nghymru yn gwybod am ein cyfrifoldebau dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg.	Sicrhau bod polisiau, ymgyrchoedd a gwasanaethau yn gyson ag ymrwymadau a wnaethpwyd yn y Cynllun.	Pennaeth Cyfathrebu	Ionawr 2011
	Ymgynghori ag aelodau'r Bwrdd a Chyfarwyddwr Rheoli Troseddwyd Cymru i benderfynu pa arweiniad neu hyfforddiant y gellid bod eu hangen yng nghyswllt defnyddio'r iaith Gymraeg ar gyfer aelodau sy'n gwrando achosion yng Nghymru.	Sicrhau bod achosion yn cael eu cynnal yn effeithiol yn y Gymraeg, lle bo angen.	Cyfarwyddwr Perfformiad a Datblygiad	Chwefror 2011
Recriwtio	Cynnal asesiad o'r gallu presennol i gynnal gwrandawiaadau yn Gymraeg ac a fyddai'r gallu i wneud hynny'n briodoledd ddymunol mewn rhai ymgeiswyr. Yna gwneud argymhellion i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ar gyfer y broses recriwtio.	Sicrhau bod achosion yn cael eu cynnal yn effeithiol yn y Gymraeg, lle bo angen.	Cyfarwyddwr Perfformiad a Datblygiad	Chwefror 2011
Gohebiaeth	Cytuno ar brotocol gyda'r Uned Iaith Gymraeg yng Ngwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi ar gyfer gwasanaethau cyfieithu.	Sicrhau bod gohebiaeth yn Gymraeg yn cael ei hateb o fewn yr un amserlenni â gohebiaeth arall.	Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol	Medi 2010

	Rhoi canllawiau i staff ar ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu ar ôl cytuno arno.		Pennaeth Cyfathrebu	Ionawr 2011
Digwyddiadau	Cyhoeddi cyfarwyddyd i staff ynglŷn â phryd mae angen cyfleusterau cyfieithu ar gyfer digwyddiadau yng Nghymru.	Bydd digwyddiadau yng Nghymru yn helpu pobl sy'n siarad Cymraeg drwy ddarparu cyfleusterau cyfieithu os gofynnir amdanynt ymlaen llaw.	Pennaeth Cyfathrebu	Ionawr 2011
Hunaniaeth gorfforaethol	Datblygu logo corfforaethol cwbl ddwyieithog ar gyfer y Bwrdd Parôl i'w ddefnyddio ar ohebiaeth, dogfennau a chyhoeddiadau a gaiff eu hysgrifennu yn Gymraeg ac ar gyfer digwyddiadau a gynhelir yng Nghymru.	Mae logo corfforaethol dwyieithog ar gael i'w ddefnyddio yn Gymraeg.	Pennaeth Cyfathrebu	Ionawr 2011
Cyhoeddiadau a ffurflenni	Rhoi cyfarwyddyd i staff pryd y dylid ystyried defnyddio cyhoeddiadau a ffurflenni Cymraeg neu ddwyieithog.	Caiff cyhoeddiadau a ffurflenni eu llunio'n ddwyieithog neu'n Gymraeg yn unol â system sgorio Bwrdd yr Iaith Gymraeg.	Pennaeth Cyfathrebu	Ionawr 2011
Gwefan	Sicrhau bod fersiynau Cymraeg o'r cyhoeddiadau, lle bo angen, yn cael eu postio ar y wefan cyn gynted â phosibl ar ôl y fersiynau Saesneg. Mae'r Bwrdd, fel adrannau llywodraeth eraill, yn cyfyngu ar ei wefannau, ac yn symud deunydd ar gyfer y cyhoedd i DirectGov, sy'n gwbl ddwyieithog neu i wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.	Bydd gwefan y Bwrdd yn cynnwys eitemau yn Gymraeg lle mae rhannau eraill o'r Cynllun yn pennu bod angen i'r eitemau hynny fod yn Gymraeg	Pennaeth Cyfathrebu	Ionawr 2011
Gwasanaethau a ddarperir ar ran y Bwrdd gan bartïon eraill	Sicrhau bod trefniadau a chontractau gyda thrydydd partïon sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng	Sicrhau agwedd gyson o ran manylebau ar gyfer gwasanaethau.	Pennaeth Cyllid	Ionawr 2011

	Nghymru yn cynnwys mesurau penodol o ran defnyddio'r Gymraeg.			
Rhoi ar waith a chyhoeddi	<p>Cydlynu gweithrediad y Cynllun, sy'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddi datganiad i'r wasg. • Sicrhau bod y Cynllun ar gael fel dogfen ddwyieithog am ddim ar ein gwefan. • Rhoi cyhoeddusrwydd helaeth i'r Cynllun yn fewnol. 	Sicrhau bod polisïau, ymgyrchoedd a gwasanaethau yn gyson ag ymrwymïadau a wnaethpwyd yn y Cynllun.	Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Phennaeth Cyfathrebu	Ionawr 2011
Monitro'r Cynllun	<p>Sefydlu trefniadau parhaus ar gyfer monitro perfformiad yn erbyn gofynion y Cynllun.</p> <p>Rhoi ffurflen fonitro i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Rhagfyr bob blwyddyn yn gwerthuso perfformiad y Bwrdd o ran rhoi'r Cynllun ar waith.</p> <p>Ar ôl tair ffurflen monitro yn adolygu gweithrediad y Cynllun, trafod gweithredu ar gyfer y dyfodol gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg.</p>	Sicrhau bod y Cynllun yn addas ar gyfer ei bwrpas.	<p>Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol</p> <p>Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol</p> <p>Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol</p>	<p>Ionawr 2011</p> <p>Rhagfyr 2011</p> <p>Rhagfyr 2013</p>